LISTEN
ENGAGE
REPRESENT

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

# PROFFIL SWYDD – Cydlynydd Cystadlaethau Trac a Maes

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Cydlynydd Cystadlaethau Trac a Maes |
| **Adrodd i** | Rheolwr Cystadlaethau a Thrwyddedu |
| **Lleoliad** | Swydd wedi ei lleoli'n bennaf yn y pencadlys: Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd (CF11 8AZ) |
| **Patrwm gweithio** | Llawn Amser (37 awr dros 7 diwrnod)<br>Mae patrymau gweithio hyblyg gan gynnwys gweithio gartref ar gael, a bydd y rôl yn cynnwys gweithio ar rai nosweithiau a phenwythnosau i gefnogi ein calendr digwyddiadau. |
| **Cyfrifoldebau** | Arwain y gwaith o gyflwyno a chydlynu cystadlaethau trac a maes ledled Cymru. |
| **Pwrpas y swydd** | Bod yn gyfrifol am ddarparu digwyddiadau trac a maes i Athletau Cymru, gan gynnwys (ond nid yn unig), Pencampwriaethau Dan Do ac Awyr Agored Cymru (Uwch ac Iau), Pencampwriaethau Ysgolion Cymru, Cwpan a Phlât Ysgolion Cymru, Cystadlaethau sy'n benodol i Ddigwyddiadau. Cydlynu calendr rhaglen trac a maes y tymor. Yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Cystadlaethau a Thrwyddedu, bod ar gael i gefnogi unrhyw ddigwyddiadau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys holl Bencampwriaethau a Digwyddiadau oddi ar y trac Athletau Cymru. |
| **Rhyngwynebau allweddol** | Yr holl staff ar draws yr adran cystadlaethau a rhanddeiliaid allanol, fel swyddogion ac aelodau'r pwyllgor. Darparwyr cystadlaethau trac a maes allanol, Athletau Ysgolion Cymru. |
| **Cyflog** | £26,000 - £28,000 p/a |
| **Buddion** | 10% o'r oriau yn ôl yr wythnos ar gyfer lles.<br>Amser o'r gwaith os yn gweithio mwy na'r oriau gwaith penodedig<br>Mynediad i gymorth iechyd meddwl.<br>Pecyn gwisg helaeth.<br>Mynediad at gyfleoedd DPP personol<br>Cynllun pensiwn aberthu cyflog hael, a chyfraniad cyfatebol o hyd at 6% gan y cyflogwr<br>Profion llygaid am ddim |

Parcio am ddim yn y swyddfa
Gweithio hyblyg
25 diwrnod o wyliau â thâl, heb gynnwys gwyliau'r banc

**Cydlynydd Cystadlaethau Trac a Maes**

WELSH ATHLETICS
ATHLETAU CYMRU

**Diben y Rôl**
Rydym yn chwilio am rywun sy'n frwd dros greu cystadleuaeth trac a maes gwreiddiol a difyr ar gyfer aelodau Athletau Cymru. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio ar draws adrannau i sicrhau bod y gystadleuaeth yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion strategol cyffredinol Athletau Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn cael y dasg o fod yn brif arweinydd cyflwyno ar gyfer cystadlaethau allweddol – gan sicrhau bod pob elfen yn ei lle er mwyn darparu'r profiad gorau posib i athletwyr, swyddogion, gwylwyr a gwirfoddolwyr.

Mae Athletau Cymru yn chwilio am unigolyn trefnus a chreadigol iawn sy'n frwd ynglŷn â threfnu digwyddiadau a chwaraeon.

Bydd y rôl yn cynnwys archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o gyflwyno cystadlaethau, gweithio gyda darparwyr cystadlaethau presennol a newydd i greu cynnig cynaliadwy.

Rhaid i'r Cydlynydd Cystadlaethau Trac a Maes fod â sgiliau cyfathrebu rhagorol a gallu rheoli sawl prosiect ar unwaith, gan sicrhau bod pob rhanddeiliad yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau llwyddiant digwyddiadau.

**Cyfrifoldebau allweddol**
**Cyflwyno Digwyddiadau**

- Arwain y gwaith o gyflwyno pob Cystadleuaeth Trac a Maes allweddol ledled Cymru (gan gynnwys, ond nid yn unig – Pencampwriaethau Hŷn Cymru - Dan Do ac Awyr Agored, Pencampwriaethau Iau Cymru - Dan Do ac Awyr Agored, Pencampwriaethau Ysgolion Cymru.
- Goruchwylio darpariaeth yr holl ddigwyddiadau cysylltiedig a gefnogir gan Athletau Cymru – gan gynnwys Cystadlaethau Agored Iau Dan Do, Cwpan a Phlât Ysgolion Cymru, cystadlaethau sy'n benodol i ddigwyddiadau.
- Gweithio gyda darparwyr cystadlaethau Trac a Maes ledled Cymru i sicrhau'r profiad gorau posibl i athletwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr bob amser.
- Gweithio gyda gweithredwyr cyfleusterau i sicrhau bod lleoliadau cystadlu yn cydymffurfio â gofynion trwyddedu.
- Rheoli holl dimau dydd y digwyddiad, gan sicrhau bod yr holl raglenni gwaith yn eglur bob amser
- Mynychu cyfarfodydd pwyllgor penodol i adolygu ac ystyried trefnu a datblygu digwyddiadau. Bod yn brif bwynt cyfathrebu rhwng y pwyllgorau perthnasol a'r staff.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Cystadlaethau a Thrwyddedu, byddwch yn gyfrifol am gyflwyno a gweithredu rhaglen gystadlu flynyddol Athletau Cymru.
- Sefydlu pwyllgor trefnu ar gyfer digwyddiadau Trac a Maes allweddol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cyfrannu at y penderfyniadau allweddol
- Cadeirio pob un o bwyllgorau trefnu'r prif gystadlaethau oddi ar y trac a gyflwynir gan Athletau Cymru.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Cystadlaethau a Thrwyddedu, helpu i gynllunio rhaglen y tymor a'r rhaglen gystadlu drwy gydol y flwyddyn, drwy gysylltu â darparwyr pob un o'r prif gystadlaethau (domestig a rhyngwladol). Sicrhau bod y rhaglen yn cyd-fynd â'r llwybr athletwyr a'r strategaeth gystadlu.

- Goruchwylio a rheoli'r systemau cysylltiedig â chynhyrchu rhaglenni, archebu medalau, archebu cyfleusterau, dillad y swyddogion ac eitemau angenrheidiol eraill ar gyfer digwyddiadau.
- Cefnogi creu fformatau cystadlu arloesol newydd ar draws pob disgyblaeth.
- Sicrhau bod holl ddigwyddiadau Athletau Cymru yn hybu cynwysoldeb bob amser

**Trwyddedu**

- Sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau a gyflwynir gan Athletau Cymru yn cyrraedd y safon drwyddedu ofynnol, gan gynnwys digwyddiadau labelu World Athletics
- Prosesu'r holl ofynion trwyddedu ar gyfer digwyddiadau Trac a Maes.
- Gweithio'n agos gyda'r adran gyfathrebu i hybu digwyddiadau allweddol i bob rhanddeiliad allweddol.
- Cynnal gwerthoedd sefydliadol Athletau Cymru a chyfrannu at waith a lles y tîm staff

**Manyleb Person**

*Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn egluro prif bwrpas a phrif elfennau'r swydd. Mae'n ganllaw i natur a phrif ddyletswyddau'r swydd fel y maent ar hyn o bryd, ond nid fel rhestr gynhwysfawr na pharhaol y'i bwriedir..*

| | Hanfodol | Manteisiol |
|---|---|---|
| Profiad o gyflwyno digwyddiad chwaraeon | X | |
| Profiad o reoli gwirfoddolwyr | X | |
| Profiad o gyflwyno gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd / partneriaid | X | |
| Gwybodaeth am arferion rheoli digwyddiadau a phrosiectau | X | |
| Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun | X | |
| Gweithio'n dda mewn tîm ac yn barod i arwain | X | |
| Gallu gweithio ar fwy nag un dasg ar y tro a gweithio'n hyblyg ar draws gwahanol gystadlaethau a phrosiectau | X | |
| Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill | X | |
| Profiad o bob un o ddisgyblaethau'r maes athletau | X | |
| Gallu teithio ledled Cymru (a Phrydain yn ôl yr angen) | X | |
| Sgiliau TG rhagorol ar gyfer ystod o feddalwedd | X | |
| Peth gwybodaeth am systemau TG trwyddedu a chofrestru presennol | | X |
| Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol | X | |
| Profiad o reoli gwefan | X | |
| Gallu gweithio dan bwysau ac o fewn amser penodol | X | |
| Sylw agos i fanylion | | X |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol | X | |